OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 139

## Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001

### Enwi, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall —

ystyr "cartref bach i blant" ("*small children's home*") yw cartref o fewn ystyr adran 63 o Ddeddf 1989, sy'n darparu (neu sydd fel arfer yn darparu neu y bwriedir iddo ddarparu) gofal a llety i nifer nad yw'n fwy na thri o blant ar unrhyw un adeg;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000;

ystyr "Deddf 1989" ("*the 1989 Act*") yw Deddf Plant 1989(**1**).

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

(**1**) 1989 p.41.